**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

21 Mawrth 2025

Annwyl Jane,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

Byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor ar hyn o bryd yn ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Yn ein cyfarfod ar 17 Mawrth 2025 nododd y Pwyllgor eich bod, yn y Memorandwm, yn datgan bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 38 a 51 o'r Bil.

Mae cymal 53 o'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol. Caiff rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad; mae cymal 53(3)(c) yn datgan bod "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Mesur neu Ddeddf Senedd Cymru, neu wedi'i gynnwys mewn offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Senedd Cymru. O'r herwydd, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro pam na cheisir cydsyniad ar gyfer cymal 53 o'r Bil.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 17 Ebrill 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**